O Dan y Môr a'i Donnau
An Cósta Beo
Living Coasts Living Seas

# Crynodeb o'r prosiect yng Ngwynedd



An Roinn Airgeadais
Department of Finance

YR UNDEB EWROPEAIDD INTERREG IIIA
EUROPEAN UNION INTERREG IIIA

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Awst 2008


O Dan y Môr a'i Donnau
An Cósta Beo
Living Coasts Living Seas

# Prosiect i godi ymwybyddiaeth am yr Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau

Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn ardaloedd gwarchodedig dynodedig dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE. Sydd yn ofynnol sefydlu rhwydwaith Ewropeaidd o ardaloedd Cadwraeth bwysig o safon uchel.

Bydd y rhwydwaith o ardaloedd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau penodol sydd o bwys i gadwraeth Ewropeaidd.

Mae Pen Llŷn a’r Sarnau yn un o’r ACAau morwrol mwyaf ym Mhrydain ac fe’i dynodwyd oherwydd presenoldeb amrywiaeth o gynefinoedd morwrol arbennig megis riffiau ac ogofau môr, yn ogystal â rhywogaethau morwrol o bwys sef Dolffiniaid Trwyn Potel, Morloi Llwyd a Dyfrgwn.




Fel prosiect a ariannir gan Interreg, mae’r prosiect O Dan y Môr a’i Donnau yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Fingal yn Iwerddon. Mae’r partneriaid yn dehongli eu amgylchedd morol trwy amryw o brosiectau.

Yn dilyn mae crynodeb o’r prosiectau wedi ei ymgymryd gan Cyngor Gwynedd gan ddefnyddio dulliau arloesol gyda mewnbwn cymunedol.

## Prosiectau Celf

### Diferyn o'r Môr

Prosiect er mwyn cynhyrchu darn o gelf sy'n darlunio bywyd tanddwr diddorol yr ardal, trwy weithio â phlant er mwyn ennyn eu diddordeb yn y môr

**Themâu:**

- Lle arbennig iawn yw Pen Llŷn a'r Sarnau am ei fywyd môr.
- Mae'r amgylchedd morol mor gyfoethog ag amrywiol ag unrhyw le arall yn y byd.

**Amcanion**

- Synnu pobl ac ennyn eu chwilfrydedd am y bywyd gwyllt morol lleol.
- Helpu pobl i ddychmygu'r hyn sy'n digwydd o dan y môr.
- Annog pobl i werthfawrogi a theimlo balchder yn yr amgylchedd morol lleol oherwydd ei fod yr un mor gyffrous ag unrhyw amgylcheddau a geir dramor neu rai egsotig.

Cynhaliwyd tri gweithdy i blant ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog yn ystod Gorffennaf - Awst 2007. Anogwyd y plant i ddod draw i wneud darluniau o greaduriaid y môr a chreu blychau dan y môr gyda chlai, tecstilau a llawer o ddefnyddiau eraill.

Crëwyd fframwaith o goed helyg, ynghyd â'r creaduriaid môr a grëwyd gan y plant, er mwyn datblygu'r dyluniad ar gyfer y cerflun.





Arweiniodd hyn at y syniad o gael siâp 'diferyn dŵr' ar gyfer y dyluniad, gyda'r syniad o fedru sbecian i mewn i'r cerflun er mwyn gweld yr olygfa danddwr.  Gellir gweld creaduriaid a ffurfiwyd o seramig oddi mewn i strwythur dur galfanedig, gyda chaead gwydr tawdd er mwyn gadael golau i mewn. Mae tyllau sbïo yn caniatáu i bobl edrych ar yr olygfa danddwr hon.







Rhai o’r cerfluniau seramig

Gyda help Grwp Gwella cyrchfan Bermo (BRIG) mi ddaethom o hyd i safle delfrydol ar y prom ym Mermo. Agorwyd y cerflyn yn swyddogol gan Elfyn Llwyn AS. ym mis Mai ac yn barod mae'r cerflyn wedi dod a bywyd morol Pen Llŷn a’r Sarnau yn agosach at nifer o bobl.



Elfyn Llwyd AS, Ceri Morris a’r Cyng. Rob Williams Maer Bermo yn agor y cerflun

**Prosiect Ffotograffiaeth**

Prosiect i danio brwdfrydedd plant ysgol yn eu traeth lleol, trwy wneud *collage* ffotograffiaeth gyda thema forwrol

**Themâu:**

- Lle arbennig iawn yw Pen Llŷn a'r Sarnau am ei fywyd môr.

**Amcanion**

- Synnu pobl ac ennyn eu chwilfrydedd yn y bywyd gwyllt morol lleol.
- Annog pobl i werthfawrogi a theimlo balchder yn yr amgylchedd morol lleol oherwydd ei fod yr un mor gyffrous ag unrhyw amgylcheddau a geir dramor neu rai egsotig.

Cymerodd Ysgol Gynradd Nefyn ac Ysgol y Friog ran yn y prosiect.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r plant ar y bywyd môr arbennig yn yr ardal er mwyn dangos iddynt pa mor lliwgar a diddorol yw. Rhoddwyd camerâu untro i'r plant a dangoswyd iddynt sut i'w defnyddio.



Aethom i gyd i lawr i'r traeth lleol, ble cafodd y plant eu hannog i dynnu llun unrhyw beth roeddent yn ei weld yn ddiddorol. Aethom i chwilota yn y pyllau rhwng y creigiau am greaduriaid glan y môr diddorol. Hefyd bu'r plant yn gwneud cerfluniau ar y traeth trwy ddefnyddio tywod, cregyn, ac unrhyw bethau eraill y daethant ar eu traws ar y traeth.



Ar yr ail ddiwrnod, cynhyrchwyd darluniau a barddoniaeth gan y plant am eu profiadau ar y traeth. Cawsant eu cyfuno gyda’r ffotograffau yr oeddent wedi eu tynnu ar y traeth er mwyn creu ‘Llen o ffotograffau o’r traeth’. Gwnaed dwy len gan y ddwy ysgol, fel ein bod ni’n gallu mynd ag un gyda ni, a bod yr ysgol yn cadw un er mwyn ei harddangos.






**Murlun Tywyn**

Prosiect er mwyn cynhyrchu gwaith celf cyhoeddus gyda chyfranogiad gref gan y gymuned.
Yr amcan yw codi ymwybyddiaeth ymysg y bobl sy'n cyfrannu i'r gwaith, a chreu darn fydd yn codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.

**Themâu :**

- Lle arbennig iawn yw Pen Llŷn a'r Sarnau am ei fywyd môr.
- Mae'r amgylchedd morol mor gyfoethog ag amrywiol ag unrhyw le arall yn y byd.

**Amcanion**

- Synnu pobl ac ennyn eu chwilfrydedd yn y bywyd gwyllt morol lleol.
- Helpu pobl i ddychmygu'r hyn sy'n digwydd o dan y môr.
- Annog pobl i werthfawrogi a theimlo balchder yn yr amgylchedd morol lleol oherwydd ei fod yr un mor gyffrous ag unrhyw amgylcheddau a geir dramor neu rai egsotig.

Cynhaliodd cwmni celf ddeongliadol Creu-ad, weithdai gyda disgyblion celf Ysgol Uwchradd Tywyn, ynghyd â Grŵp Celf Tywyn, er mwyn meddwl am syniadau ar gyfer dyluniad y murlun. Cafodd gweithdai mosaig ei gynnal yn swyddfa Age-Concern yng ngorsaf rheilffordd Tywyn, fel bod modd i'r cyhoedd alw draw a chymryd rhan yn y gwaith o gwblhau'r mosaig.



Gorsaf Trên yn Tywyn




Disgyblion Ysgol Tywyn yn gweithio ar y dyluniad




Gwirfoddolwyr yn gwneud y mosaig

Cafodd y mosaig ei osod dros hen ffenestri wedi i'w bricio i fyny yn yr orsaf, pob un gyda thêmau yn dehongli'r cynefinoedd Pen Llŷn a'r Sarnau.




Mosaig y Riffiau a'r Sarnau



Mosaig yr Aberoedd



Mosaig Gwastadeddau llaid a thywod



Mosaig Ogofâu'r Môr





Mosaig Cilfachau a Baeau

Y gwaith mosaig mewn mwy o fanylder
























## Arolwg Barn y Gynulleidfa

Cwblhawyd tri sesiwn grŵp ffocws â phobl leol gan gwmni ymchwil farchnata. Rhoddwyd gwybod i'r bobl am ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a gofynnwyd iddynt am eu barn amdano.

Pwrpas yr astudiaeth oedd sefydlu beth oedd lefel yr ymwybyddiaeth, a darganfod beth oedd yr agwedd tuag at y dynodiad. Defnyddiwyd y canlyniadau i arwain ein gwaith.

### Crynodeb o'r darganfyddiadau

- Dim ond un o'r atebwyr lwyddodd i nodi ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn gywir.

- Yn gyffredinol, prin oedd yr ymwybyddiaeth o ddynodiad yr Ardal Cadwraeth Arbennig.

- Ystyriai pobl fod yr ardal yn un arbennig mewn perthynas â chadwraeth. Y prif nodweddion yr ystyrid yn arbennig oedd prydferthwch a bywyd gwyllt yr ardal. Teimlai rhai bod rhinweddau arbennig yr ardal yn gosod llawer gormod o gyfyngiadau ar ddatblygu.
- Roedd gwahaniaeth barn ynglŷn â os oedd bod yn ymwybodol o'r dynodiad yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Roedd yn atgyfnerthu'r ymwybyddiaeth o falchder yn yr ardal ac yn amlygu maint ac ehangder y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n cartrefu yno. Roedd pobl yn falch ei fod yn cael ei warchod ond nid oeddent yn teimlo y gwnâi unrhyw wahaniaeth iddynt yn bersonol gan y byddent yn parhau i ddefnyddio'r ardal gyda'r un faint o barch ac yr oeddynt o'r blaen.

- Nid oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r rhai oedd yn ymateb fod yr ACA yn ddynodiad gan yr Undeb Ewropeaidd, ond teimlent yn falch bod yr ardal yn derbyn cydnabyddiaeth y tu allan i Brydain Fawr.

- Roedd gan y mwyafrif o'r atebwyr lawer o ddiddordeb yn amgylchedd morol lleol Pen Llŷn a'r Sarnau. Roedd mwy o gysylltiad â'r ardal gan y ddau grŵp o'r arfordir na'r grŵp o Ddolgellau. Roedd y rhai oedd yn byw ymhellach i ffwrdd o'r arfordir yn teimlo llai o gysylltiad â'r ardal arfordirol.

## Arddangosfa Deithiol

Arddangosfa deithiol gyda gwybodaeth am yr ACA. Cynhyrchwyd arddangosfeydd lliwgar a gemau rhyngweithiol. Bu mewn llawer o ddigwyddiadau dros yr haf a bydd yn parhau i gael ei harddangos mewn gwahanol leoliadau'r flwyddyn nesaf

- Rhan bwysig o swydd y Swyddog ACA yw codi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau cyhoeddus. Roedd angen cael arddangosfa addysgiadol oedd yn dal y llygad.

- Crëwyd yr arddangosfa gan gwmni dylunio graffeg Blah d Blah o Gonwy.

- Datblygwyd gemau rhyngweithiol er mwyn denu plant ac oedolion at yr arddangosfa, a'u hannog i ddysgu wrth chwarae.

- Dengys yr arddangosfa luniau o fywyd gwyllt morol ar sgrin wastad, ond bydd hefyd yn medru dangos y fideo a gymerwyd o dan y môr pan fydd hon wedi cael ei chwblhau.




**Cystadleuaeth Poster**

Cystadleuaeth gwaith celf, ffotograffiaeth neu farddoniaeth yn disgrifio'r hyn sy'n arbennig am ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Efallai y bydd gwaith yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei wneud yn boster ar gyfer hyrwyddo'r ACA

- Hysbysebwyd y gystadleuaeth trwy daflenni hysbysu, mewn grwpiau celf a ffotograffiaeth lleol, mewn ysgolion uwchradd lleol ac yn y cyfryngau.

- Gofynnwyd i bobl anfon eu ffotograffau, gwaith celf neu farddoniaeth i ddangos i ni yr hyn y teimlent oedd yn arbennig am Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.


- Datgelir enw'r enillydd heddiw a'r wobr fydd taith mewn cwch i ddau, er mwyn iddynt fedru gweld bywyd gwyllt Pen Llŷn yn agos.

- Bydd gwaith yr enillydd gael ei wneud yn boster ar gyfer hyrwyddo ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.





Rhai o'r gwaith y gystadleuaeth




Y poster gyda dyluniad buddugol Rachel Lawrence, Ysgol Tywyn

# Y Prosiect Theatr

Ymgymerwyd â phrosiect theatr mewn addysg yn ysgolion cynradd Gwynedd. Y bwriad oedd cyfarwyddo a magu brwdfrydedd plant yn y bywyd môr lleol a chreu ymdeimlad o falchder yn eu hardal. Ein bwriad hefyd oedd amlygu'r effeithiau posib ar fywyd môr





Cynhyrchwyd y ddrama gan Gwmni'r Frân Wen, cwmni theatr mewn addysg lleol. Ysgrifennwyd y sgript gan Angharad Tomos a ddatblygodd yn Y Crwban Mwya'n y Byd.

Dilynodd y stori ymfudiad môr-grwban lledraidd o Fôr y Caribî i Fae Ceredigion gan amlygu'r creaduriaid rhyfeddol y gallai fod wedi eu gweld yn yr ardal hon.

Roedd neges gref trwy'r stori am beryglon sbwriel plastig i fywyd gwyllt morol.





Ar ôl pob drama cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb, lle'r oedd y plant yn medru dysgu mwy am y bywyd môr lleol a'r problemau sy'n eu hwynebu. Cawsant glywed am stori wir y môr-grwban lledraidd mwyaf a ddarganfuwyd wedi marw ar draeth Harlech yn 1988. Daeth yn amlwg bod y crwban wedi bwyta plastig, ac efallai mai hyn achosodd ei farwolaeth.

Cafodd pob un o'r plant 'fag crwban' sef bag o linyn er mwyn eu hatgoffa o beryglon bagiau plastig. A cafodd pob ysgol becynnau gwaith gyda mwy o weithgareddau a gwybodaeth ar themâu morol.




Llwyddodd y cynhyrchiad i dderbyn cyllid ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, oedd yn galluogi'r cwmni i gyfieithu'r ddrama i'r Saesneg ac ymestyn y daith trwy Ynys Môn, Conwy ac ysgolion anghenion arbennig yr ardal.

Yna, aeth y cwmni a Chyngor Gwynedd â'r ddrama i Iwerddon, ble (gyda'n partneriaid prosiect Interreg, Cyngor Sir Fingal), trefnwyd dau berfformiad mewn ysgolion cynradd lleol. Roedd hwn yn ymarfer defnyddiol er mwyn rhannu ein profiada â Chyngor Sir Fingal, a hefyd er mwyn lledaenu neges y ddrama.

## Fideo Tanddwr

Cafodd ffilm 30 eiliad ei chynhyrchu, yn dangos lluniau tanddwr cyffrous. Defnyddir y ffilm fel rhan o'r arddangosfa deithiol, ac fel 'hysbyseb' byr i'r ACA mewn digwyddiadau a chyflwyniadau.

## Arfarnu Prosiect

Cafodd rhai o'r prosiectau mwy anarferol eu harfarnu gan gwmni ymchwil farchnata er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd wrth godi ymwybyddiaeth. Arfarnwyd y prosiect theatr, a'r prosiect celf trwy ddefnyddio grwpiau ffocws â phlant. Cafodd yr arddangosfa deithiol ei harfarnu trwy sylwi ar ymddygiad yr ymwelwyr ac asesu eu barn yn ystod digwyddiadau dros yr haf.

Dangoswyd yr adroddiad bod y prosiectau wedi bod yn poblogaidd iawn, ac yn llwyddiannus wrth codi ymwybyddiaeth o'r bywyd morol lleol. Mewn rhai achosydd, ddaru'r prosiect newid agweddau ac annog gweithgareddau.

## Taflen ACA Pen Llŷn a'r Sarnau

Cafodd taflen newydd er mwyn hyrwyddo a darparu gwybodaeth ynglŷn â'r ACA ei greu. Mae'r taflen yn cynnwys gwybodaeth am y dynodiad a nodweddion yr ACA, ynghyd â rhai ffeithiau diddorol ynglŷn â bywyd gwyllt morol. Dosberthir y daflen trwy ddigwyddiadau, ymhlith grwpiau â diddordeb, a'r cyhoedd.







## Paneli Dehongli

Gosodwyd tri panel dehongli, a bwrdd picnic yn dehongli'r ACA Pen Llŷn a'r Sarnau mewn lleoliadau arfordirol o gwmpas yr ACA. Bydd y paneli hyn yn codi ymwybyddiaeth am yr ACA, tra ar yr un pryd, yn dehongli'r nodweddion lleol.









Rhai o'r dyluniadau cynnar



**Cynhadledd O Dan y Môr a'i Donnau / Living Coasts Living Seas / An Costa Béo Malahide, Iwerddon**

Cynhaliwyd seminar project rhwng partneriaid y project o Gymru ac Iwerddon yn Malahide, Iwerddon ym mis Mai 2008. Roedd llawer o gynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn bresennol yn y seminar, a rhai o'r bobl a oedd wedi gweithio ar elfennau o'r project Cymreig. Yn yr un modd, roedd nifer o gynrychiolwyr o Gyngor Sir Fingal a'r cynghorau cyfagos, ac o fudiadau amgylcheddol yn Iwerddon, hefyd yn bresennol.

Roedd arddangosfa'r ACA Pen Llŷn a'r Sarnau i'w gweld yno, a chafwyd amryw o gyflwyniadau ar wahanol agweddau ar y project. Cafwyd croeso da iawn i'n syniadau a'r hyn roeddem wedi'i gyflawni. Cynhaliwyd gweithdy i feithrin syniadau ac i gael rhyw amcan o faint o frwdfrydedd a oedd o ran cynnal projectau yn y dyfodol.

Roedd yn gyfle gwych i ddangos i'n partneriaid yn Iwerddon beth roeddem ni wedi'i gyflawni, yn gyfle i ni weld y gwaith rhagorol roeddynt hwy wedi'i gyflawni, ac yn fodd inni i gyd rannu syniadau â'n gilydd.